

**TRIBIWNLYS Y GYMRAEG  
Cyfarwyddyd Ymarfer Rhif 2**

**WELSH LANGUAGE TRIBUNAL  
Practice Direction Number 2**

**Y Defnydd o Ieithoedd y Tribiwnlys**

**The Use of the Tribunal Languages**

1. Mae Llywydd Tribiwnlys y Gymraeg ('y Tribiwnlys') yn rhoi'r Cyfarwyddyd hwn o dan adran 124(1) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur') a Rheol 4 o Reolau Tribiwnlys y Gymraeg 2015 ('y Rheolau'). Cafodd ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan adran 124(2) o'r Mesur.

1. The President of the Welsh Language Tribunal ('the Tribunal') makes this direction under section 124(1) of the Welsh Language Measure (Wales) 2011 ('the Measure') and Rule 4 of the Welsh Language Tribunal Rules 2015 ('the Rules'). It has been approved by the Welsh Ministers under section 124(2) of the Measure.

**Pwrpas**

**Purpose**

2. Mae Rheol 6 o'r Rheolau yn darparu –

- mai ieithoedd y Tribiwnlys yw'r Gymraeg a'r Saesneg;
- bod gan bob parti neu dyst yr hawl i ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall yn nhrefodion y Tribiwnlys.

2. Rule 6 of the Rules provides –

- that the languages of the Tribunal are the English and Welsh languages;
- that every party or witness has the right to use either language in the proceedings of the Tribunal.

3. Pwrpas y Cyfarwyddyd Ymarfer hwn yw rhoi cyngor ymarferol ar sut i ddehongli a gweithredu'r Rheolau mewn modd sy'n unol â Rheol 6.

3. The purpose of this Practice Direction is to provide practical advice on how to interpret and apply the Rules in accordance with Rule 6.

4. Nid yw cynnwys y Cyfarwyddyd hwn yn newid darpariaethau'r Rheolau (na'r Mesur) mewn unrhyw ffordd. Os ceir unrhyw anghysondeb rhwng y Cyfarwyddyd a darpariaethau'r Rheolau (neu rhai'r Mesur), y darpariaethau hynny bydd â blaenoriaeth.

4. The contents of this Direction do not alter the provisions of the Rules (nor of the Measure) in any way. If there is any inconsistency between the Direction and the provisions of the Rules (or of the Measure), those provisions shall have precedence.

5. Yn unol â Rheol 4(4), mae cynnwys y Cyfarwyddyd hwn yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddiadau sy'n cael eu rhoi gan y Tribiwnlys mewn perthynas ag achos penodol.

5. In accordance with Rule 4(4), the contents of this Direction are subject to any directions given to the Tribunal in relation to a specific case.

6. Gall methiant gan barti i gydymffurfio â'r Cyfarwyddyd hwn gael ei ystyried gan y Tribiwnlys yn fethiant i –

6. Failure by a party to conform with this Direction may be considered by the Tribunal as a failure to –

- gynorthwyo'r Tribiwnlys i hyrwyddo'r amcan pennaf (gweler Rheolau 3 a

- help the Tribunal to further the overriding objective (see Rules 3 and

- 5(1)(c);
  - gydweithredu â'r Tribiwnlys yn gyffredinol (gweler Rheol 5(1)(d));
  - weithredu'n briodol ac yn rhesymol (at bwrpas Rheol 55).
7. Mae'r Cyfarwyddyd Ymarfer hwn yn ymwneud, yn unig, â chyfathrebiadau sy'n rhan o drafodion y Tribiwnlys, mewn perthynas ag achos penodol, ac sy'n cael eu rheoli gan ddarpariaethau'r Rheolau. Nid yw'n berthnasol, felly, i gyfathrebiadau –
- gyda'r Tribiwnlys ar faterion sydd heb fod yn ymwneud ag achos penodol;
  - rhwng y Tribiwnlys ag unrhyw un sydd heb fod yn barti (neu'n barti arfaethedig) i achos penodol, neu'n dyst (neu'n dyst arfaethedig) mewn perthynas ag achos felly;
  - uniongyrchol rhwng partïon (neu rhwng partïon arfaethedig).

### **Cychwyn cais**

8. Rhaid cychwyn cais trwy gyflwyno hysbysiad cais ysgrifenedig i'r Tribiwnlys. Gall yr hysbysiad cais fod yn y naill iaith neu'r llall.
9. Mae Rheol 12 yn rhagnodi'r wybodaeth y bydd yn rhaid i'w chynnwys yn yr hysbysiad hwnnw, gan gynnwys yr iaith y mae'r ceisydd (neu gynrychiolydd y ceisydd) yn dymuno derbyn cyfathrebiadau oddi wrth y Tribiwnlys ynddi. Bydd y Tribiwnlys yn gweithredu'n unol â dewis y ceisydd (neu gynrychiolydd y ceisydd) oni bai fod y ceisydd (neu'r cynrychiolydd) yn hysbysu'r Tribiwnlys o ddymuniad i newid y dewis hwnnw.

### **Cofrestr y Tribiwnlys**

10. Bydd manylion pob cais yn cael eu nodi yn y Gofrestr a fydd yn cael ei chadw gan y Tribiwnlys o dan Reol 58. Bydd y Gofrestr, a'r manylion sy'n cael eu rhestru

- 5(1)(c);
  - co-operate with the Tribunal generally (see Rule 5(1)(d));
  - act in an appropriate and reasonable manner (for the purpose of Rule 55).
7. This Practice Direction deals only with communications which form part of the proceedings of the Tribunal, in relation to a specific case, and which are governed by the provisions of the Rules. Therefore, it is not relevant to communications –
- with the Tribunal on matters which do not relate to a specific case;
  - between the Tribunal and anyone who is not party (or proposed party) to a specific case, or a witness (or proposed witness) in relation to such a case;
  - directly between parties (or between proposed parties).

### **Commencement of an application**

8. A case must be commenced by submitting a notice of application to the Tribunal. The notice of application may be in either language.
9. Rule 12 prescribes the information which must be included in that notice, including the language in which the applicant (or the applicant's representative) wishes to receive communications from the Tribunal. The Tribunal will act in accordance with the wishes of the applicant (or the applicant's representative) unless the applicant informs the Tribunal of a wish to alter that choice.

### **The Tribunal Register**

10. Details of every application will be entered in the Register which will be kept by the Tribunal under Rule 58. The Register, and the details listed in it, will

ynddi, yn y ddwy iaith.

be in both languages.

**Cyfathrebu gyda'r Comisiynydd a phartïon (neu bartïon arfaethedig) eraill**

**Communicating with the Commissioner and other parties (or proposed parties)**

11. Ar ôl i fanylion cais cael eu cofnodi yn y Gofrestr, bydd Ysgrifennydd y Tribiwnlys yn anfon gwybodaeth ynglŷn â'r cais at y Comisiynydd (o dan Reol 13(2)), gan gynnwys copi o'r hysbysiad cais ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig a dderbyniwyd oddi wrth y ceisydd. Cymerir, wrth wneud hynny, mai'r Gymraeg yw'r iaith y bydd y Comisiynydd yn dymuno derbyn cyfathrebiadau oddi wrth y Tribiwnlys ynddi.
11. After entering details of an application in the Register, the Secretary of the Tribunal will send information regarding the application to the Commissioner (under Rule 13(2)), including a copy of the notice of application and any related documents received from the applicant. It will be assumed, when doing so, that Welsh is the language in which the Commissioner wishes to receive communications from the Tribunal.
12. Bydd y copiâu o'r hysbysiad cais ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig sy'n cael eu hanfon at y Comisiynydd yn gopiâu o'r dogfennau hynny fel y daethant i law'r Tribiwnlys.
12. The copies of the notice of application and any related documents sent to the Commissioner will be copies of those documents as received by the Tribunal.
13. Os bydd yn rhaid i'r Tribiwnlys hysbysu parti arfaethedig arall o'r cais (o dan adran 106(2)(a) neu 106(4)(a) o'r Mesur), bydd Ysgrifennydd y Tribiwnlys yn gwneud hynny mewn ffurf ddwyieithog. Bydd yr Ysgrifennydd hefyd yn gofyn i'r sawl sy'n cael ei hysbysu i hysbysu'r Ysgrifennydd, yn ysgrifenedig, ym mha iaith y mae'r person hwnnw'n dymuno derbyn cyfathrebiadau oddi wrth y Tribiwnlys.
13. If the Tribunal needs to inform another proposed party of the application (under section 106(2)(a) or 106(4)(a) of the Measure), the Secretary of the Tribunal will do so in bilingual form. The Secretary will also ask the person being informed to inform the Secretary, in writing, in which language that person wishes to receive communications from the Tribunal.
14. Os bydd unrhyw berson arall yn gwneud cais i gael ei wneud yn barti, bydd Ysgrifennydd y Tribiwnlys yn gofyn i'r person hwnnw i hysbysu'r Ysgrifennydd, yn ysgrifenedig, ym mha iaith y mae'r person hwnnw'n dymuno derbyn cyfathrebiadau oddi wrth y Tribiwnlys.
14. Should any other person make an application to be made a party, the Secretary of the Tribunal will ask that person to inform the Secretary, in writing, in which language that person wishes to receive communications from the Tribunal.
15. Bydd Ysgrifennydd y Tribiwnlys, wrth gyfathrebu gyda phartïon (neu bartïon arfaethedig) i gais yn cydymffurfio â dewisiadau'r partïon hynny ynglŷn â'r iaith y dymunent dderbyn cyfathrebiadau ynddynt.
15. The Secretary of the Tribunal, in communicating with parties (or proposed parties) to an application, will conform with the wishes of those parties with regard to the language in which they wish to receive communications.

**Datganiadau achos, dogfennau perthnasol a datganiadau ysgrifenedig tystion**

**Case statements, relevant documents and written statements by witnesses**

16. Gall –

- datganiadau achos (gweler Rheolau 19, 20 ac 21)
- dogfennau perthnasol (er enghraifft copïau o ohebiaeth ynglŷn â chwyn a wnaed i'r Comisiynydd)
- datganiadau ysgrifenedig gan dystion

sy'n cael eu hanfon at y Tribiwnlys o dan y Rheolau fod yn y naill iaith neu'r llall.

17. Pan fydd Ysgrifennydd y Tribiwnlys yn danfon copïau o'r dogfennau hynny at bartïon eraill (er enghraifft o dan Reol 22) byddant (yn ddarostyngedig i'r paragraff nesaf) yn gopïau o'r dogfennau hynny fel y daethant i law'r Tribiwnlys.

18. Disgwylir, yn gyffredinol, i bartïon a'u cynrychiolwyr fedru gwneud pa bynnag ddarpariaethau a fydd eu hangen er mwyn iddynt fedru delio â dogfennau yn y naill iaith neu'r llall. Derbynnir, fodd bynnag, y gall sefyllfaoedd eithriadol godi pryd y bydd anghenion cyfiawnder yn gofyn am gamau arbennig ar ran y Tribiwnlys (er enghraifft trwy ddarparu cyfieithiad o ddogfen neu nifer o ddogfennau). Dylai unrhyw barti sy'n teimlo bod yr amgylchiadau'n gofyn am gymorth felly wneud cais am gyfarwyddyd ar y mater (o dan Reol 26).

**Gwrandawiadau**

19. Bydd gan bawb sy'n cyfranogi ar lafar mewn gwrandawriad (partïon, cynrychiolwyr, tystion ac aelodau o'r Tribiwnlys) yr hawl i wneud hynny trwy gyfrwng y naill iaith neu'r llall. Er mwyn sicrhau hynny, bydd y Tribiwnlys yn darparu cyfieithu ar y pryd effeithiol ar gyfer pob gwrandawriad.

20. Ni fydd yr hyn sy'n cael ei ddweud yn

16. The following items –

- case statements (see Rules 19, 20 and 21)
- relevant documents (for example, copies of correspondence about a complaint made to the Commissioner)
- written statements by witnesses

which are sent to the Tribunal under the Rules, may be in either language.

17. When the Secretary of the Tribunal sends copies of those documents to other parties (for example, under Rule 22), they (subject to the next paragraph) will be copies of those documents as received by the Tribunal.

18. In general, parties and their representatives will be expected to be able to make whatever provisions are necessary in order for them to be able to deal with documents in either language. It is accepted, however, that exceptional circumstances may arise when the Tribunal, in the interests of justice, may need to take special steps (for example by providing a translation of a document or a number of documents). Any party who feels that the circumstances demand such assistance should apply for a direction on the matter (under Rule 26).

**Hearings**

19. Everyone who participates orally at a hearing (parties, representatives, witnesses and members of the Tribunal) has the right to do so in either language. To ensure that this is so, the Tribunal will provide effective instantaneous translation for every hearing.

20. That which is said in English at a hearing will not normally be translated into

Saesneg mewn gwrandawriad yn cael ei gyfieithu, fel arfer, i'r Gymraeg. Ond os bydd tyst sydd am roi tystiolaeth yn Gymraeg yn cael ei holi gan rywun sydd am ddefnyddio Saesneg, bydd y cwestiynau'n cael eu cyfieithu i'r Gymraeg. Dylai unrhyw barti neu gynrychiolydd sy'n bwriadu holi yn Saesneg tyst sy'n ymddangos (yn ôl iaith datganiad ysgrifenedig y tyst hwnnw) ei fod am roi ei dystiolaeth yn Gymraeg, hysbysu'r Tribiwnlys o hynny cyn, neu yn union ar ôl, i ddiwrnod y gwrandawriad perthnasol gael ei hysbysu iddo.

Welsh. But if a witness who wishes to give evidence in Welsh is questioned by someone who wishes to use English, the questions will be translated into Welsh. Any party or representative who intends to question in English a witness who appears (from the language of that witness's written statement) to be giving his or her evidence in Welsh should inform the Tribunal of that before, or immediately after, being informed of the date of the relevant hearing.

**Penderfyniadau'r Tribiwnlys**

**Tribunal Decisions**

21. Bydd y ddogfen sydd, yn unol â Rheol 47, yn cofnodi penderfyniad y Tribiwnlys, ac unrhyw atodiad sy'n cofnodi'r rhesymau dros y penderfyniad, yn ddwyieithog.

21. The document which, in accordance with Rule 47, records the Tribunal decision, and any appendix recording the reasons for the decision, will be bilingual.

**Llywydd Tribiwnlys y Gymraeg**

**President of the Welsh Language Tribunal**

.....2015

.....2015